

Love Hangover

Tom Cardew

Ochr yn ochr â Rumblestrip, rydym yn dangos prosiect gan Tom Cardew, sydd wedi gweithio gyda g39 dros y flwyddyn ddiweddfaf i ddatblygu gosodiad newydd. Mewn lleoliad sy'n edrych fel storfa oriel, chwaraeir cyfres o naratifau cysylltiedig gan rithffurfiau sydd wedi'u cynhyrchu gan gyfrifiadur. Yn anniben ac nid yn hollol o'r byd presennol, ysbrydion ydynt. Mae eu lleisiau a'u straeon yn tynnu sylw fel rhai sydd yn bendant yn ddynol, wrth iddynt fynd ar gyfeiliorn, baglu dros eiriau ac anghofio'r hyn maent yn ei drafod, yn llithro o synnwyr i lol. Clebra'r grŵp ymlaen, wedi'u datgysylltu ac ar wahân yn ôl pob golwg, cyn dechrau cydamseru fel côr.

Rwy'n hoff o'r syniad o blygu rhywbeth sy'n hollol gyffredin, fel mynegiadau coll, i greu rhywbeth mor ecstatig ac aruchel â chân gorawl.

Gan ddefnyddio technolegau digidol, perfformiad comedi'aid, cân, a gosodiad sy'n peri penbleth fawr, mae gwaith Tom yn g39 yn archwilio dulliau cyfathrebu a lefelau dealltwriaeth – a chamddealltwriaeth – sy'n digwydd ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol. Cyflwynir y gwaith mewn gofod nad yw ar agor i'r cyhoedd fel arfer, gan eich tywys drwy gypyrddau storio a thechnoleg sydd wedi dyddio, sgriniau taflunio a bocsys cardfwrdd. Mae'r coridor hwn yn eich arwain at yr hyn sy'n edrych fel cefn theatr bren cyn agor allan i ystafell yn llawn sgriniau.

Mae'r un wyneb o ddelwedd sydd wedi'i chynhyrchu â chyfrifiadur (CGI) yn syllu allan o bob sgrin, ond mae'n ymddangos fel pe na bai'n ymwybodol ohonoch, neu'r wynebau unfath eraill, wrth i'r dorf o rithffurfiau gwrywaidd blinedig daflu eu lleisiau, gan fwmian, gweiddi ac arthio er mwyn cael gair i mewn.

Gwelaf fod galw gwirioneddol i gelf siarad drwy iaith fodern: sut mae pobl a diwylliant yn ymateb i ddatblygiadau'r cyfryngau a chyfathrebu, a'r modd esblygol y mae ymgysylltiad cymdeithasol a chyfathrebu yn newid, yn enwedig o ran y ffurfiau cyfathrebu tameidiog sy'n gwrthdymnu'n barhaol ar ffurf memynnau, trydariadau a dulliau cyfryngau cymdeithasol eraill o'r un



Lansiad: Dydd Gwener 3 Mai, 2019 6-9pm
Agor: 4 Mai - 13 Gorffennaf 2019

g39 Stryd Rhydychen, CAERDYDD CF24 3DT
Amseroedd agor – rhwng 11am a 5pm
ddydd Mercher i ddydd Sadwrn
Ffôn +44 (0) 29 2047 3633
g39.org @g39cardiff #g39cardiff
e:post@g39.org

Oriel yng Nghaerdydd a redir gan artistiaid yw **g39**, ac mae'n ymrwymedig i gyflwyno celfyddyd gyfoes ddigyfaddawd. Ers 1998, mae wedi sefydlu ei hun fel canolfan flaenllaw i weithgarwch artistiaid yng Nghymru, gan lunio rhaglen o arddangosfeydd, digwyddiadau, prosiectau oddi ar y safle a chyhoeddiadau. Mae g39 yn gweithio gydag artistiaid o Gymru a thu hwnt, gydag artistiaid sefydledig yn gweithio ochr yn ochr â rhai newydd. Mae g39 yn gweithredu WARP, sef Rhaglen Adnoddau Artistiaid Cymru. Gall defnyddwyr WARP gymryd rhan mewn seminarau, gweithdai, areithiau, teithiau a digwyddiadau cymdeithasol, a gallant fanteisio ar gyfleoedd amrywiol i artistiaid. Mae WARP yn darparu rhwydwaith beirniadu ar gyfer cymuned y tu mewn a thu hwnt i Gymru sydd, yn ei dro, yn creu cynulleidfifa oriel amrywiol, gwybodus ac ymgysylltiedig.

Mae **Tom Cardew** yn artist amlddisgyblaethol sy'n gweithio ym maes ffilm, gosodiad a pherfformiad. Mae ei ymarfer yn ymwneud â'r llinell aneglur rhwng yr hyn sy'n real a'r hyn sy'n gynrychioladol. Astudiodd Tom yn MFA Central St Martins (2018). Mae arddangosfeydd, dangosiadau sgrin a gweithdai diweddar yn cynnwys: Tate Exchange, Tate Modern – Llundain, y DU (2017 a 2018); Dangosiad Sgrin Ffilm Agored Oriel Whitechapel – Llundain, y DU (2017); Metaphors & Spatiality, Sefydliad Celfyddydau Cain Prifysgol Sichuan – Chongqing, Tsieina (2017/18); TBCTV, Somerset House (2018); NOVA Cymru, yr Academi Frenhinol Gymreig, Canolfan Celfyddydau Aberystwyth ac Arcêd, Caerdydd (2017/18); Xhibit, Gofod Prosiect Bermondsey – Llundain (2018).

fath.

Yn y pen draw, mae pob llais yn cydweddu, ac yn cydgorffio i rannau o'r un gân, llais a rennir ar batrwm cyfarwydd cytgan a phennill. Mae Cardew yn mynd â thechnolegau sy'n ymddangos yn artiffisial ac yn hirbell iawn ac mae'n darganfod eu bod yn rymus, gan ddod o hyd i rywbeth sy'n ddynol ac yn fregus iawn ynglŷn ag angen i gysylltu sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn.

Yn debyg i Rumblestrip yn y prif ofod, mae argoelion a rhagarwyddion yn dibynnu ar batrymau, ar ein tybiaethau ynghylch achos ac effaith, dymuniad i ddod o hyd i drefn a gwneud rhagfynegiadau. Mae'r rhagamcaniad hwn yn rhan o oroesi - ffordd o wneud synnwyr o ansicrwydd y dyfodol. Rydym bob amser yn edrych am y cyswllt rhwng pethau, neu'n eu trefnu yn ôl achos ac effaith, hyd yn oed pan fo'r dystiolaeth yn ein harwain i edrych yn rhywle arall.

DIWEDD



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

